



Llawr 1af / 1st Floor
Tŷ Afon / River House
Llys Ynys Bridge / Ynys Bridge Court
Gwaelod-y-Garth / Gwaelod-y-Garth
CAERDYDD / CARDIFF
CF15 9SS / CF15 9SS

Phone/ Ffôn 02920 502674
Email/ E-bost: HSWHC.Strategicplanning@wales.nhs.uk

13 Tachwedd 2017

I bwy bynnag a fynno wybod,

Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys

Pwrpas y llythyr hwn

Rydym wedi bod yn gweithio gyda meddygon, nyrsys ac arbenigwyr annibynnol ar y cynnig i greu rhwydwaith trawma mawr ar hyd a lled De Cymru, a hoffem gael eich barn ar y cynnig.

Rydym yn awyddus i ddatblygu gwasanaethau sy'n cynyddu'r posibilrwydd y byddwch chi'n goroesi anafiadau trawma mawr yn unrhyw ran o Dde Cymru (sy'n cynnwys De a Gorllewin Cymru a De Powys), ac y byddwch chi'n gwella'n dda a bydd safon eich bywyd yn well.

Mae'r term 'trawma mawr' yn cyfeirio at anafiadau niferus a difrifol a allai arwain at anabledd neu farwolaeth. Mae'r anafiadau'n gallu cynnwys pethau fel anafiadau difrifol i'r pen, anafiadau niferus ar ôl damweiniau ar y ffyrdd, damweiniau diwydiannol, cwympiadau, anafiadau i lawer o bobl ar ôl digwyddiad mawr a chlwyfau o ynnau a chyllyll.

Yr hyn rydym ei angen

Hoffem gael barn pawb sy'n byw yn y cymunedau ar hyd a lled De Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn dod i benderfyniad sy'n iawn i bobl yr ardal.

I wneud hyn, rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ddysgu am eich barn ar ein cynigion ac i ofyn a oes unrhyw faterion eraill rydych yn awyddus i ni eu hystyried wrth ddatblygu ein cynlluniau.

I'ch help i roi eich ymateb i ni, rydym wedi creu dogfen ymgynghori sy'n esbonio:

- yr hyn rydym yn ei olygu wrth ddefnyddio'r termau trawma mawr a rhwydwaith trawma mawr
- ein rhesymau dros feddwl bod angen rhwydwaith trawma mawr yn rhanbarth De Cymru, a beth allai natur y rhwydwaith fod
- ein cynnig i sefydlu canolfan trawma mawr yng Nghaerdydd ac uned drawma fawr yn Abertawe
- y ffyrdd y gallai rhwydwaith trawma mawr effeithio arnoch chi, waeth ym mha ran o Dde Cymru rydych chi'n byw.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein cynlluniau ar ein gwefan:

www.iechydscyhodduwscymru.org/ymgyngoriadtrawmamawr

Y ffyrdd y gallwch chi helpu

Mae llawer o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod cleifion sy'n dioddef trawma mawr yn fwy tebygol o oroesi ac o wella'n dda os ydyn nhw'n cael triniaeth o fewn rhwydwaith trawma mawr.

Mae panel clinigol annibynnol wedi edrych ar y dystiolaeth ar gyfer sefydlu rhwydwaith trawma mawr yn Ne a Gorllewin Cymru a De Powys, a gwnaeth yr argymhellion canlynol.

- Dylid mynd ati'n gyflym i sefydlu rhwydwaith trawma mawr sydd ag isadeiledd llywodraethu clinigol yn Ne Cymru.
- Dylai'r canolfannau trawma mawr i oedolion a'r un i blant fod ar yr un safle.
- Dylai'r ganolfan trawma mawr fod yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.
- Dylai Ysbyty Treforys yn Abertawe fynd yn uned drawma fawr a dylai gael rôl arweiniol yn y rhwydwaith trawma mawr.

- Dylid gosod amserlen glir a realistig ar gyfer y gwaith o greu'r rhwydwaith trawma.

Hoffem ofyn tri chwestiwn i chi am ein cynnig.

1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys?
2. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys gael ei sefydlu ar argymhellion y panel annibynnol?
3. Os byddwn ni'n sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys, a ddylem ni ystyried unrhyw beth arall?

Gallwch chi roi eich atebion i'r cwestiynau hyn ar y ffurflen sy'n rhan o'r brif ddogfen ymgynghori.

Manteisiwch ar y cyfle i gyfrannu

Mae'n hanfodol mai ein penderfyniad yw'r un gorau i'r bobl sy'n byw ar hyd a lled De a Gorllewin Cymru a De Powys. Mae hynny'n golygu ein bod ni angen eich barn – felly darllenwch ein dogfen ymgynghori a'r wybodaeth gefndirol, ac anfonwch eich barn atom erbyn 5^{ed} Chwefror 2018.

Gallwch ateb yr arolwg ar-

lein: www.iechydchodduscymru.org/ymgyngoriadtrawmamawr

Neu llenwch ffurflen electronig a'i he-bostio at:

NHSWHC.strategicplanning@wales.nhs.uk

Os byddai'n well gennych anfon eich ymateb atom drwy'r post (ni fydd angen stamp) defnyddiwch y cyfeiriad: Rhadbost YMGYNGHORIAD TRAWMA MAWR. (Rhaid i chi ysgrifennu'r cyfeiriad yn union fel yr uchod, gan gynnwys y priflythrennau.)

Bydd y byrddau iechyd hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ar hyd a lled rhanbarth De Cymru i gyflwyno'r cynnig i greu rhwydwaith trawma mawr, a bydd cyfle yn ystod y rhain i bobl ofyn cwestiynau a rhoi eu hadborth. Mae

manylion am y digwyddiadau hyn ar ein gwefan

www.iechydycyhodduscymru.org/ymgyngoriadtrawmamawr ac ar wefan y bwrdd
iechyd yn eich ardal.

Os hoffech gael y dogfennau hyn mewn iaith arall neu fformat gwahanol (er
enghraifft, print mawr, iaith Arwyddion Prydain, Braille neu fersiwn sain)
ffoniwch ni ar y rhif 029 2050 2674 neu e-bostiwch:

NHSWHC.strategicplanning@wales.nhs.uk

Yn gywir



Bob Hudson

Cyfarwyddwr

Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru